20 Mai 2021

***Neges at sylw rhieni myfyrwyr Blwyddyn 13**

Annwyl Riant / Warchodwr,
Ysgrifennaf atoch er mwyn eich hysbysu o'r trefniadau ar gyfer yr wythnosau nesaf. Yn y man cyntaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch plentyn am eich holl gefnogaeth a chydweithrediad yn ystod yr wythnosau diwethaf: mae myfyrwyr Blwyddyn 13 wedi ymateb yn arbennig o dda i'r her o gwblhau asesiadau yn eu dosbarthiadau.

Trefniadau wythnos nesaf:
Cynhelir asesiadau olaf myfyrwyr Blwyddyn 13 wythnos nesaf a bydd yr ysgol yn gorffen i'n myfyrwyr ym mlwyddyn 13 ar ddydd Iau, 27ain o Fai gan fod diwrnod HMS ar ddydd Gwener, 28ain o Fai.

Trefniadau dosbarthu canlyniadau Safon Uwch dros dro Blwyddyn 13:
Rydym am wahodd ein myfyrwyr ym mlwyddyn 13 i'r ysgol i dderbyn y canlyniadau Safon Uwch dros dro. Bydd croeso i'n myfyrwyr ddod i Ffreutur yr ysgol erbyn 9.30yb ar ddydd Mawrth, 15fed o Fehefin i dderbyn y canlyniadau dros dro. Dim ond canlyniadau cymwysterau bwrdd arholi CBAC bydd yn cael eu rhannu bryd hynny. Bydd nifer o ganlyniadau cymwysterau pynciau galwedigaethol (bwrdd arholi Pearson) ddim yn cael eu rhannu tan ddydd Mawrth, 10fed o Awst, 2021.

Bydd cyfle i'n myfyrwyr gymdeithasu dros baned a chael amser i dynnu lluniau ar ddydd Mawrth, 15fed o Fehefin.

Bydd modd trefnu apwyntiad gydag aelod o Uwch Dîm Arwain Ysgol Bro Pedr ar ddydd Iau neu ddydd Gwener, 17eg neu 18fed Mehefin, os rydych chi a'ch plentyn am drafod y canlyniadau Safon Uwch dros dro. Byddwn yn danfon llythyr arall atoch gyda manylion ynglŷn â sut y mae gwneud yr apwyntiadau yma drwy School Cloud cyn 15fed o Fehefin.

Gyrfa Cymru:
Os rydych chi a'ch plentyn am arweiniad pellach parthed llwybrau ôl-18, yna mae croeso i chi drefnu apwyntiad rhithiol gyda'r Swyddog Gyrfau, Mrs Iona Lloyd-Davies: iona.lloyddavies@gyrfacymru.llyw.cymru

Am unrhyw fanylion pellach, croeso i chi gysylltu gyda ni yn Ysgol Bro Pedr drwy e-bostio: gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Pob dymuniad da i'ch plentyn yn ystod yr asesiadau sydd yn weddill a diolch ichi unwaith eto am eich parodrwydd i gydweithio gyda'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd anodd yma.

Yn ddiffuant,

Jane Wyn.
(Pennaeth)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

20 May 2021

*** A message for the attention of parents of Year 13 students**

Dear Parent / Guardian,

I am writing to you to inform you of the arrangements for the coming weeks. In the first instance, I would like to thank you and your child for all your support and co-operation during the previous weeks: Year 13 students have responded very positively indeed to the challenge of completing assessments in their classrooms.

The arrangements for next week:
Year 13 students' final assessments will be held next week and the school will finish for our year 13 students on Thursday, 27th May as there is an INSET day on Friday, 28th May.

Arrangements for distributing Year 13 provisional A level results:
We would like to invite our Year 13 students to the school to receive the provisional A level results. Our students are welcome to come to the school canteen by 9.30am on Tuesday, 15th June to receive the provisional results. Only WJEC exam board qualification results will be shared at that time. Many vocational subject qualification results (Pearson exam board) will not be shared until Tuesday, 10th of August, 2021.

There will be an opportunity for our students to socialise over a cuppa and have time to take photos on Tuesday, June 15th.

An appointment with a member of Ysgol Bro Pedr's Senior Leadership Team can be arranged on Thursday or Friday, 17th or 18th June, if you and your child wish to discuss the provisional A level results. We will send you another letter with details of how to make these appointments through School Cloud before the 15th of June.

Careers Wales:
If you and your child wish to receive further guidance regarding post-18 routes, then you can arrange a virtual appointment with Mrs Iona Lloyd-Davies by e-mailing iona.lloyddavies@gyrfacymru.llyw.cymru

If you have any further questions, you are welcome to contact us at Ysgol Bro Pedr by e-mailing: gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Best wishes to your child during the remaining assessments and thank you once again for your willingness to work with the school during this difficult academic year.

Yours Faithfully,

Jane Wyn.
(Headteacher)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk